# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 6

ACHOSION ARBENNIG

*Grwpiau corfforaethol*

### 81 Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynglŷn â dynodi grwpiau o gwmnïau

(1) Caiff rheoliadau ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth ynglŷn â dynodi grwpiau o gyrff corfforaethol, ei diddymu neu ei diwygio fel arall.

(2) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill) ynglŷn â'r cyrff corfforaethol y caniateir eu dynodi'n aelodau o grŵp ac ynglŷn ag effeithiau dynodiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 81 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 81 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(w)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 81.